# Taflen Senarios Chwarae Rhan Parch ar Waith Wythnos Gwrth-fwlio 2024

## Taflen 1 Gwers Ysgolion Cynradd

DEWISWCH BARCH
#WYTHNOSGWRTHFWLIO

### Senario 1: Y Disgybl Newydd

**Y sefyllfa: Mae disgybl newydd wedi ymuno â'r dosbarth yn ddiweddar. Yn ystod amser egwyl, maent yn eistedd ar eu pen eu hunain ar y buarth.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Mae grŵp o ddisgyblion yn cerdded heibio, yn sylwi ar y disgybl newydd, ac yn cychwyn sibrwd a giglan amdanynt.
- Maent yn penderfynu peidio â gofyn i'r disgybl newydd ddod i chwarae, ac mae'r disgybl yn teimlo'n unig ac yn drist oherwydd hynny.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae un disgybl yn sylwi bod y disgybl newydd yn eistedd ei hun ac yn eu gwahodd i ddod at eu grŵp.
- Mae'r grŵp yn dweud helo wrth y disgybl newydd ac yn eu holi am eu hobïau.
- Maent yn cynnwys y disgybl newydd yn eu gêm, ac mae'r disgybl yn teimlo'u bod wedi cael croeso.

### Senario 2: Rhannu Deunyddiau

**Y sefyllfa: Yn ystod gwers, gofynnir i ddisgyblion rannu pensiliau, glud a sisyrnau.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Mae un disgybl yn gwrthod â rhannu'r pensiliau â'u grŵp, ac yn dal gafael ym mhob un ohonynt.
- Mae'r disgyblion eraill yn teimlo'n ddig ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu cynnwys oherwydd ni allant gyfranogi.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae'r disgybl sydd â'r pensiliau yn eu rhannu ag aelodau eraill y grŵp.
- Mae pawb yn eu defnyddio yn eu tro, ac mae pawb yn cyfrannu at y prosiect.
- Mae'r grŵp yn cydweithio ac mae pawb yn teimlo'u bod wedi'u cynnwys yn y dasg.

© Biwro Cenedlaethol y Plant – Elusen gofrestredig rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.



DEWISWCH BARCH
#WYTHNOSGWRTHFWILO

ANTI-BULLYING ALLIANCE
Trefnydd

## Senario 3: Herian Cyd-ddisgybl

**Y sefyllfa: Mae un o'r disgyblion yn gwneud camgymeriad wrth ddarllen ar lafar yn y dosbarth, ac mae disgybl arall yn cychwyn eu herian.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Mae un disgybl yn chwerthin ar ben y darllenydd ac yn gwneud sbort ar ben eu camgymeriad.
- Mae'r disgybl arall yn teimlo'n chwithig ac yn ddigalon, ac nid yw'n dymuno darllen rhagor.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae disgybl arall yn camu i mewn ac yn dweud bod chwerthin ar ben eraill yn gas.
- Mae'r disgybl a wnaeth y camgymeriad yn cael cymorth gan ddisgybl arall, sy'n dweud, "Paid â phoeni, bydd pawb yn gwneud camgymeriadau."
- Mae'r disgybl a wnaeth ymddwyn yn gas yn dweud 'sori'.

## Senario 4: Anghytuno â Ffrind

**Y sefyllfa: Mae dau ffrind yn ffraeo ynghylch pa gêm y dylent ei chwarae yn ystod amser egwyl.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Mae un ffrind yn dymuno chwarae ei gêm ac nid yw'n dymuno gwrando ar syniadau'r disgybl arall.
- Maent yn ffraeo, ac mae'r ddau yn cymryd atynt ac nid ydynt yn chwarae gyda'i gilydd.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae'r naill ffrind yn gwrando ar y llall yn ei dro.
- Maent yn penderfynu cyfaddawdu trwy chwarae un gêm i ddechrau a'r llall wedyn.
- Mae'r ddau ffrind yn hapus oherwydd fe wnaethant ddangos parch trwy fod yn ystyriol o deimladau'r naill a'r llall.


© Biwro Cenedlaethol y Plant – Elusen gofrestredig rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.

# Senarios Chwarae Rhan Parch ar Waith (Parhad)

Taflen 1 Gwers Ysgolion Cynradd Wythnos Gwrth-fwlio 20241

## Senario 5: Defnyddio Geiriau Cas

**Y sefyllfa: Yn ystod gwaith grŵp yn y dosbarth, mae un disgybl yn dweud rhywbeth sy'n brifo teimladau disgybl arall yn anfwriadol.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Nid yw'r disgybl a ddywedodd sylwadau cas yn ymddiheuro. Mae'n chwerthin ac yn dweud mai dim ond tipyn o sbort oedd hynny.
- Mae'r disgybl y brifwyd ei deimladau yn teimlo'n waeth ac nid yw'n dymuno dweud rhagor.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae'r disgybl yn sylweddoli bod eu sylwadau wedi peri loes.
- Maent yn dweud, "Mae'n ddrwg gen i, doeddwn i ddim yn bwriadu brifo dy deimladau."
- Mae'r disgybl arall yn derbyn yr ymddiheuriad ac maent yn parhau i gydweithio yn barchus.

## Senario 6: Parchu Safbwyntiau Gwahanol:

**Y sefyllfa: Yn yr ystafell ddosbarth, gofynnir i'r disgyblion rannu gwybodaeth am eu hoff lyfr.**

**Chwarae rhan amharchus:**

- Mae un disgybl yn torri ar draws disgybl arall, ac yn dweud "Dyna lyfr diflas! Sut fedri di hoffi'r llyfr yna?"
- Mae'r disgybl yn teimlo'n drist ac nid yw'n dymuno dweud rhagor am eu llyfrau.

**Chwarae rhan parchus:**

- Mae disgybl yn gwrando'n ofalus ar safbwyntiau'r disgybl arall, er eu bod yn anghytuno.
- Maent yn disgwyl am eu cyfle i siarad ac yn dweud, "Dwi'n deall pam wyt ti'n hoffi'r llyfr yna. Mae fy hoff lyfr i yn wahanol oherwydd..."
- Mae'r ddau ddisgybl yn teimlo'u bod yn cael eu parchu, ac mae'r drafodaeth yn parhau, yn gadarnhaol.

© Biwro Cenedlaethol y Plant – Elusen gofrestredig rhif 258825. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr â rhif 952717. Swyddfa gofrestredig: 23 Mentmore Terrace, Llundain E8 3PN. Cwmni Cyfyngedig trwy Warant.



DEWISWCH BARCH

#WYTHNOSGWRTHFWILO

ANTI-BULLYING ALLIANCE

Trefnydd